

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024

Cadeirydd: Cynghorydd R.Stewart

Is-gadeirydd: Cynghorydd D.Price

Cynghorwyr: D.Simpson a/ac S.K.Hunt

**Parc Cenedlaethol
Cynrychiolwyr:** A.Edwards and D.Clements

Aelod Cyfetholedig: E.Woollett and S.Toombs

**Swyddogion sy'n
Bresennol:** M.Nicholls, W.Walters, W.Bramble, G.Jones,
T.Jones, C.Moore, S.Aldred-Jones,
L.McAndrew, N.Pearce, M.Shaw, K.Tillman a/ac
C.Plouman

**Gwahoddedigion
craffu:** Cynghorwyr T.Bowen a/ac R.Sparks

1. CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Rhoddwyd gwybod i swyddogion am gamgymeriad mewn perthynas ag adran presenoldeb y cofnodion. Tynnwyd sylw at y ffaith mai D Clements oedd cynrychiolydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac nid Swyddog.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 a 5 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir, ar yr amod y nodwyd mai D Clements oedd Cynrychiolydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac nid Swyddog.

4. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd yr aelodau Blaenraglen Waith Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

5. **CYNRYCHIOLAETH Y PORTH GORLLEWINOL**

Rhodddwyd adroddiad i'r Aelodau a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ymagwedd briodol i'w gymryd o ran y cynnig a gyflwynwyd i sefydlu sedd ychwanegol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, ar Fwrdd Porth y Gorllewin.

Eglurwyd bod Porth y Gorllewin yn bartneriaeth drawsranbarthol o arweinwyr llywodraeth leol, busnes a'r byd academiaidd ar draws de Cymru a gorllewin Lloegr; gyda'r diben o yrru'r economi yn ei blaen, creu cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy gan ddefnyddio sgiliau a diwydiant i bweru dyfodol gwyrddach a thecach ar gyfer ein hardal a'r DU.

Rhodddwyd gwybod i'r pwyllgor fod tri o'r pedwar awdurdod yn ne-orllewin Cymru, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Gâr a Chyngor Sir Penfro, wedi dod i'r casgliad na fyddent yn cael eu cynnwys ym Mhorth y Gorllewin yn 2019. Cadarnhawyd bod Cyngor Abertawe wedi penderfynu ymuno â'r bwrdd.

Nodwyd, gyda datblygiad yr agenda ynni ac economaidd ar draws de-orllewin Cymru, ffurfio'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a sicrhau'r Cais Porthladd Rhydd Celtaidd, cynhaliwyd trafodaethau ynghylch ymuno â'r bartneriaeth ymhlith tri arweinydd arall y Cyd-bwyllgor Corfforaethol. Dywedodd swyddogion fod pob un o'r tri Awdurdod Lleol wedi ysgrifennu at Borth y Gorllewin, a oedd wedi ymateb a dod i'r casgliad y byddent yn croesawu cyfranogiad ehangach gan ardal Bargaen Ddinesig Bae Abertawe er mwyn dod yn rhan ffurfiol o'r bartneriaeth.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y drafodaeth ynghylch Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru'n ymuno â Bwrdd Porth y Gorllewin wedi bod yn seiliedig ar efelychu trefniadau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; byddai hyn yn golygu y byddai Cyngor Abertawe

yn cadw ei sedd ar y bwrdd, a byddai lle cylchdro ar gyfer yr Awdurdodau Lleol sy'n weddill yn y Rhanbarth.

Eglurwyd bod tri opsiwn i'w hystyried, a nodwyd y rhain yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Mynegwyd mai'r opsiwn a argymhellir oedd 'Opsiwn 1: Cytuno ar y sedd ychwanegol fel sedd Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar y bwrdd yn ogystal â sedd Abertawe'. Ychwanegwyd mai'r opsiwn hwn fyddai'n cael ei roi ar waith orau ar sail gylchdro flynyddol rhwng y tri Awdurdod Lleol, gan ddechrau gyda Chyngor Sir Gâr. Roedd y cylchdro a awgrymwyd hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn trafodaethau, roedd yr Arweinwyr i gyd wedi cytuno i roi Opsiwn 1 a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ar waith.

PENDERFYNWYD:

Cytuno ar gynrychiolaeth Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, ar Fwrdd Porth y Gorllewin, fel a ganlyn:

Bydd un o arweinwyr y tri awdurdod lleol yn darparu cynrychiolaeth ar sail gylchdro flynyddol fel y nodir isod, yn ogystal â sedd Abertawe.

- Arweinydd, Cyngor Sir Gâr
- Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Arweinydd, Cyngor Sir Penfro

6. MONITRO ARIANNOL - CHWARTER 3 2023/24

Darparwyd adroddiad monitro ariannol chwarter tri Pwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i'r Pwyllgor, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2023/24.

Roedd swyddogion yn falch o gyhoeddi cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r grant trafndiaeth, i gefnogi datblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau £125k ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, ac ymrwymiad pellach o £100k ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Cynhwyswyd manylion y monitro ariannol yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Soniodd y Prif Swyddog Cyllid fod y gwariant net yn is na'r rhagolwg gwreiddiol o £398,553, sy'n golygu y bydd cyfraniad o arian yn dod yn ôl i'r warchodfa ar ddiwedd y flwyddyn.

PENDERFYNWYD:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

7. CYLLIDEB CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU 2024/25

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn gofyn i Aelodau gytuno a gosod cyllideb Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Cyn cyflwyno'r adroddiad, nodwyd bod Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi derbyn llythyr gan Gadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru – Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Roedd y llythyr yn cynnwys ymateb yr Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/25, a ystyriwyd ganddynt yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024.

Roedd Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru – Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn bresennol yn ystod y cyfarfod i ddarparu cynrychiolaeth, a chodi'r pwyntiau allweddol a fynegwyd drwy gydol y llythyr.

Mewn ymateb, rhoddodd Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru sicrwydd y byddai'r Pwyllgor yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am yr adnoddau priodol er mwyn ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol ganddynt.

Esboniodd swyddogion mai Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru oedd yn gyfrifol am osod ei gyllideb a chytuno ar yr ardoll i awdurdodau cyfansoddol; roedd yn rhaid gosod a chytuno ar hyn cyn 31 Ionawr 2024. Ychwanegwyd bod y dyraniad ardoll yn seiliedig ar faint y boblogaeth.

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn destun ardoll ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y tri opsiwn cyllideb i'w hystyried. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid drosolwg o'r opsiynau, a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

- Opsiwn 1 - Cyllideb parhad yn 2024/25
- Opsiwn 2 - Cyllideb parhad minws 10% yn 2024/25
- Opsiwn 3 - Cyllideb Weithredol Cost Llawn Orau yn 2024/25

Cyfeiriwyd at opsiwn tri, a oedd â gwarian a amcangyfrifir o £2,082,899. Mynegwyd y byddai'r opsiwn hwn yn heriol iawn o ystyried sefyllfa cyllid y sector cyhoeddus a'r anhawster yr oedd Awdurdodau Lleol yn ei wynebu o ran gosod cyllidebau.

Eglurwyd bod opsiwn un ac opsiwn dau yr un peth o ran cyflwyno. Yr unig wahaniaeth oedd bod opsiwn dau yn manylu ar ostyngiad o 10% ar yr ardoll gan Awdurdodau Lleol cyfansoddol, o ystyried y pwysau cyllidebol yr oeddent yn eu hwynebu. Fodd bynnag, nodwyd y gallai'r 10% gael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd, sy'n golygu y gallai'r gwariant barhau i gael ei gyflawni heb dorri gwasanaethau. Byddai defnyddio 10% o'r cronfeydd wrth gefn yn dal i ddarparu lefel iach o gronfeydd wrth gefn, a fyddai'n caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol gael ei ddatblygu dros y cyfnod sydd i ddod.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch sefyllfa'r pedwar Is-bwyllgor a chyflwyno eu ffrydiau gwaith; Roedd yr adroddiad a ddsbarthwyd yn nodi'r hyn y gellid ei gyflawni mewn perthynas â phob opsiwn ar gyfer cyllideb. Soniwyd y bydd cryn dipyn o waith a fydd yn datblygu wrth symud ymlaen.

Nodwyd mai'r opsiwn a argymhellir oedd 'Cyllideb parhad minws 10% yn 2024/25', a fanylwyd arno fel opsiwn dau yn yr adroddiad a ddsbarthwyd. Eglurwyd bod yr ail opsiwn gyda chost o £615,049 gyda'r cronfeydd wrth gefn yn talu 10% (minws £59,071) gan roi sefyllfa net o £555,978; Bydd y sefyllfa net hon yn cael ei rhannu rhwng y pedwar Awdurdod Lleol ar sail poblogaeth, a hi fydd yr ardoll y bydd yn rhaid iddynt ei chynnwys yn unigol yn eu proses pennu cyllideb eu hunain.

PENDERFYNWYD:

- Cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, sef £615,049 (Parhad gyda gostyngiad ardoll o 10%), fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddsbarthwyd.
- Cymeradwyo'r ardoll yn seiliedig ar boblogaeth i'r awdurdodau cyfansoddol fel a ganlyn:

Ardoll Awdurdodau Lleol 2024/25

- Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Ardoll) - £191,188
- Cyngor Sir Gâr (Ardoll) - £151,281
- CBS Castell-nedd Port Talbot (Ardoll) - £114,094
- Cyngor Sir Penfro (Ardoll) - £99,414

Cyfanswm = £555,978

8. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

CADEIRYDD